

Astudiaeth Achos

Cyfnewid Myfyrwyr Rhithiol 2018

Pwyntiau Allweddol

- Fe wnaeth y prosiect alluogi'r myfyrwyr i gael profiad o leoliad y bydden nhw heb ei gael fel arall.
- Fe wnaeth leihau'r effaith ar yr amgylchedd drwy osgoi teithio yn yr awyr.
- Ymgwymerwyd ag ymchwil i faterion iechyd y cyhoedd yn y byd go iawn sy'n digwydd mewn gwrsyll i ffoaduriaid yn Libanus.
- Fe wnaeth roi cyfle i'r myfyrwyr brofi amrywiaeth o dechnolegau modern.
- Ychwanegwyd at ddealltwriaeth ryngddiwylliannol a rhyngwladol.

Pwy?

Myfyrwyr israddedig yn astudio ar raglenni Iechyd y Cyhoedd oedd ar y rhaglen ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd ac yn Libanus.

Pam?

Bydd cynlluniau cyfnewid myfyrwyr yn gyfleoedd ardderchog i fyfyrwyr israddedig gael dysgu a datblygu. Ond mae teithio drwy hedfan yn niweidiol iawn i'r amgylchedd ac mae'r costau cysylltiedig yn golygu mai'r sefydliadau a'r myfyrwyr mwyaf cyfoethog yn unig a fydd yn cael y profiadau hyn. Maen nhw'n eithaf anghynaliadwy am fod angen cyllid lefel uchel yn barhaus. Drwy'r rhyngwrwyd ac offer telathrebu modern, bydd cyfnewid myfyrwyr yn rhithiol yn rhoi dewis arall a fydd â'r rhan fwyaf o fanteision teithio ffisegol. Hefyd, ni fyddai modd i fyfyrwyr gael mynd i'r gwrsyloedd pebaen nhw'n teithio i Libanus gan, ar adeg y cyfnewid, roedd y gwrsyloedd mewn ardal nad oedd yn cael ei hystyried gan Swyddfa Dramor a Chymanwlad y DU yn ddiogel ar gyfer teithio.

Sut?

Fe wnaeth myfyrwyr o'r DU ac o brifysgolion Libanus gysylltu ystafelloedd dosbarth drwy feddalwedd fideo-gynadledda â chymorth i ddechrau oddi wrth academyddion yn America, Libanus a'r DU. Yna fe gawson nhw eu rhoi mewn timau a drefnwyd ymlaen llaw o 3 neu 4 myfyriwr; roedd myfyrwyr o'r DU ac o Libanus ym mhob tîm. Cafodd ei grŵp trafod WhatsApp ei roi i bob tîm er mwyn iddyn nhw gael dod i adnabod ei gilydd ac i weithio ar eu tasgau penodedig. Fe wnaeth yr hyfforddwr o Libanus fonitro pob grŵp trafod, gan roi cymorth pan ofynnwyd amdano.

Ddefnyddiwyd dull dysgu drwy broblemau ar gyfer y cyfnewid i gael addysgu'r myfyrwyr ynglŷn â phroblemau iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig â'r gwrsyloedd i ffoaduriaid o Syria yn Libanus, a chaiff pwnc gwahanol ei roi i bob tîm gael ei ymchwilio. Wedi ymchwilio i'w pynciau, fe wnaeth y grwpiau gwblhau canllawiau cyfweld a ddefnyddiwyd gan y myfyrwyr yn Libanus pan oedden nhw'n ymweld â'r gwrsyloedd lle roedd y ffoaduriaid o Syria yn byw yn Nyffryn Baca. Wedi cael cydsyniad ar sail gwybodaeth, roedd y myfyrwyr o Libanus yn gallu dal, golygu a rhannu darn o ffilm 360° o leoliadau o fewn y gwrsyloedd.

Yn olaf, cynhaliwyd sesiwn fideo-gynadledda a wnaeth alluogi'r myfyrwyr o Libanus i gyflwyno casgliadau eu timau ar faterion yn ymwneud â iechyd y cyhoedd, pethau ymarferol a gweithdrefnau lliniaru risgiau a ddefnyddiwyd yn eu maes ymchwilio dynodedig. Yna roedd y myfyrwyr yn y DU yn gallu rhyngweithio â'r ffilm 360° drwy ddefnyddio technoleg VR. Cafodd y myfyrwyr yn y DU eu cyfweld yn unigol a chafodd trawsgrifiadau o'r cyfweiliadau eu dadansoddi.

Canlyniadau

Fe wnaeth y myfyrwyr gyflawni'r canlyniadau dysgu ar gyfer modiwlau eu rhaglenni perthnasol. Drwy rannu maes ymchwil eang yn is-rannau ar gyfer grwpiau cymysg o fyfyrwyr o Libanus a'r DU iddyn nhw gael ymchwilio a thrwy rannu canlyniadau cryno bob grŵp, roedd pob un o'r myfyrwyr yn gallu ymchwilio i faes cymharol eang dros gyfnod cymharol fyr o amser. Fe wnaeth y cyfnewid annog pob myfyriwr a oedd yn cymryd rhan i ystyried cael swydd dramor a bu'n brofiad dysgu cofiadwy a grymus a wnaeth godi awydd yn y cyfranogwyr i fod â mwy eto o ddiddordeb yn y pwnc.

Cyfeiriadau

H. Dawson, N. Alami, K. Bowen and D. Maddah, "The use of virtual reality for public health education with reference to Syrian refugee camps", in Proceedings of the Virtual and Augmented Reality to Enhance Learning and Teaching in Higher Education Conference 2018, Ed by J. Hudson and R. Kerton. IM Publications Open, Chichester, pp. 73–81 (2019). <https://doi.org/10.1255/vrar2018.ch8>